**PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL HSS-08-01 (p3)**

**Dyddiad:** 16 Mai 2001
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Teitl:** Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin

## Diben

1. Adrodd ar gynnydd Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin ers cyhoeddi adroddiad y Comisiwn Gwella Iechyd (CHI) ar yr ymddiriedolaeth a'u hymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 22 Tachwedd 2000 (HSS-20-00).

## Cefndir

2. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin ym mis Ebrill 1999 drwy gyfuno ymddiriedolaethau Caerfyrddin a Llanelli Dinefwr, proses a wrthwynebwyd, yn enwedig yn Llanelli. Mae gan yr ymddiriedolaeth ddau brif ysbyty, Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli ac Ysbyty Gorllewin Cymru yng Nglangwili, Caerfyrddin. Cychwynnwyd ar y gwaith o gyfuno'r adrannau clinigol yn y ddwy safle ym mis Gorffennaf 2000. Mae gan yr ymddiriedolaeth drosiant o £88 miliwn ac mae'n cyflogi 3,250 o staff.

3. Ym mis Ebrill 2000, gofynnodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Comisiwn Gwella Iechyd (CHI) ymgymryd ag ymchwiliad i Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin, â'r prif bwyslais ar adolygu ei threfniadau mewn perthynas â rheolaeth glinigol. Ymwelodd tîm y CHI â'r ymddiriedolaeth ym mis Mehefin 2000 a chyhoeddodd ei adroddiad ym mis Tachwedd mewn pryd ar gyfer ymddangosiad yr ymddiriedolaeth gerbron y Pwyllgor. Wedyn, cafodd argymhellion y CHI eu ffurfio'n gynllun gweithredu (*Atodiad A)*, a chyfarfu'r Gweinidog â chynrychiolwyr o'r ymddiriedolaeth, Awdurdod Iechyd Dyfed Powys a'r CHI ym mis Ionawr 2001 er mwyn trafod hwn.

4. Fel rhan o'r broses o fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu, gofynnodd swyddogion y Cynulliad am dystiolaeth ysgrifenedig benodol – megis adroddiadau archwilio a chofnodion cyfarfodydd perthnasol y bwrdd ac chyfarfodydd perthnasol eraill yn dangos bod y camau gweithredu wedi'u cwblhau. Wedi hynny, ymwelodd tîm aml-ddisgyblaethol o swyddogion, o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr yr NHS, â'r ymddiriedolaeth ar ddiwedd mis Ebrill.

## Cynnydd

5. Er clod i'r staff yn yr ymddiriedolaeth, gwnaed llawer iawn o waith gwerthfawr ers ymweliad tîm y CHI, ac fe wnaed cynnydd da yn erbyn gofynion eang adroddiad y CHI. Yn arbennig o nodedig oedd y gwaith a wnaed ar ddatblygu prosesau rheoli risgiau clinigol a ffyrdd o ddelio â chwynion, y meysydd a allai ddysgu gwersi i rannau eraill o Gymru. Mae'r ymddiriedolaeth, ynghyd â'r awdurdod iechyd, wedi

chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu gweithio mewn partneriaeth a rhwydweithiau clinigol yn yr ardal, ac fe gafwyd gwelliannau pwysig yn natblygiad proffesiynol y nyrsys.

6. Mae gwaith wedi'i wneud ar faterion penodol a godwyd yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Tachwedd y llynedd. Mae polisi'r ymddiriedolaeth ar lawdriniaethau mewn theatrau, a luniwyd o ganlyniad i ddigwyddiad anffodus y llynedd pan dynnwyd aren iach un o'r cleifion, wedi'i archwilio ddwywaith gan ddangos cydymffurfiad llawn yn yr ymddiriedolaeth. Hefyd, archwiliodd yr ymddiriedolaeth gydymffurfiaeth â chanllawiau Pwyllgor Ymgynghorol Gwyddonol Cymru ar farcio pelydrau-X, ac fe adolygwyd agweddau ar ddefnyddio'r adran ddamweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Tywysog Philip a gwestiynwyd gan adroddiad y CHI.

7. Mae'r gwaith a wnaed o ganlyniad i adroddiad y CHI yn golygu bod gwelliannau mawr yn digwydd er lles cleifion a staff. Er hyn, yn y cyfarfod diweddar i gyfer adolygu'r cynnydd a wnaed, cydnabu'r ymddiriedolaeth a swyddogion y Cynulliad bod angen gwneud gwaith pellach. Bellach, bydd yr ymddiriedolaeth yn symleiddio ac yn cyfuno elfennau gwahanol o'i gwaith ar reolaeth glinigol ac yn trefnu bod rhai o'i pholisïau'n cael eu dilysu'n allanol er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r arfer gorau. Bydd yr ymddiriedolaeth yn sicrhau bod prosesau cadarn ar gyfer gweithredu ac adolygu'r holl weithredoedd yn y sefydliad. Mae'r ymddiriedolaeth wedi comisiynu adolygiad annibynnol o faterion yn ymwneud ag adnoddau dynol a datblygiad trefniadol, ac fe fydd angen gweithredu'r argymhellion a ddaw o hyn.

8. Mae'n hanfodol bwysig bod themâu arweinyddiaeth, datblygiad trefniadol a rhagoriaeth glinigol, sy'n rhedeg drwy adroddiad y CHI, yn ffurfio sylfaen ar gyfer adnewyddu gwasanaethau'r ymddiriedolaeth. Bydd angen arweinyddiaeth gryfach ac atebolrwydd cliriach, ac fe fydd yr ymddiriedolaeth yn sicrhau prosesau cadarn ar gyfer gweithredu ac adolygu'r holl gamau gweithredu yn y sefydliad. Bwriedir gwella cyfathrebu mewnol ac allanol er mwyn ail-adeiladu hyder yn yr ymddiriedolaeth.

**<u>Y Camau Nesaf</u>**

9. Bydd yr ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu ac adolygu'r camau gweithredu, ac fe fydd swyddogion yn monitro cynnydd yn rheolaidd - drwy gyfrwng ymweliadau a thrafodaethau – a bydd y canlyniadau'n cael eu bwydo i'r adolygiad ehangach o'r ymddiriedolaeth.

10. Yr ymchwiliad hwn oedd yr adroddiad CHI cyntaf ar ymddiriedolaeth yng Nghymru, ac mae wedi darparu sylfaen ddefnyddiol er mwyn datblygu'r broses o greu a monitro'r gwaith o gwblhau'r cynllun gweithredu. Caiff y broses hon ei haddasu yn ôl y gwaith a wneir ar yr ymddiriedolaeth, ac fe fydd yn adeiladu ar y berthynas ragorol a chynhyrchiol a ddatblygodd â'r CHI dros y flwyddyn ddiwethaf.

**<u>Goblygiadau Ariannol</u>**

11. Mae'r papur hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd ac felly nid oes angen i'r Pwyllgor benderfynu yn ei gylch. Nid oes goblygiadau ariannol i'r Cynulliad.

**Cydymffurfiaeth**

12. Mae’r papur hyn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd ac felly nid oes angen i’r Pwyllgor benderfynu yn ei gylch. Nid oes materion newydd na chynhennus, na materion o briodoldeb.